Cyllid & Tollau EF

# Nodiadau Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf

Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026 (2025–26)

## Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i lenwi tudalennau Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf eich Ffurflen Dreth

Mae'r nodiadau hyn yn egluro'r rheolau sylfaenol sy'n berthnasol mewn achosion syml. Mewn achosion mwy cymhleth, efallai y bydd angen i chi gael cyngor proffesiynol. Os oes gennych unrhyw amheuaeth am eich amgylchiadau, dylech ofyn i'ch ymgynghorydd treth. Gallwch ddarllen ein Llawlyfr ar Enillion Cyfalaf, sy'n egluro'r rheolau yn fanylach. Ewch i www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/capital-gains-manual

Rhaid i chi lenwi'r tudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf' os:

- gwnaethoch werthu neu waredu asedion trethadwy a oedd yn werth mwy na £50,000
- oedd eich enillion trethadwy cyn didynnu unrhyw golledion yn fwy na £3,000 ('swm blynyddol sydd wedi ei eithrio rhag treth')
- oes gennych enillion mewn blwyddyn gynharach sy'n drethadwy yn y cyfnod hwn
- ydych am hawlio colled cyfalaf caniataol neu hawlio unrhyw enillion cyfalaf neu ddewis am y flwyddyn
- oeddech yn defnyddio'r sail trosglwyddio yn flaenorol, ac wedi trosglwyddo enillion trethadwy tramor o flwyddyn gynharach
- ydych yn gwneud hawiliad o dan y gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) neu'r cyfleuster ailwladoli dros dro (TRF) sy'n disodli'r rheolau blaenorol ynghylch unigolion nad ydynt yn ddomisil, gan gynnwys y sail trosglwyddo

> I gael rhagor o wybodaeth am y sail drosglwyddo, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS264'.

- ydych yn gwaredu rhan o fuddiant, neu'n ei waredu'n gyfan gwbwl, mewn eiddo neu dir yn y DU, a hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar adeg 'tramor' eich blwyddyn ranedig

> I gael rhagor o wybodaeth am enillion cyfalaf dibreswyl, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS307'.

Bydd y nodiadau hyn hefyd yn eich helpu i hawlio rhyddhad o dan y gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG). Er mwyn hawlio rhyddhad, mae'n rhaid i chi fod yn 'preswylydd newydd cymwys' ac yn gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn FIG ar gyfer incwm tramor gan ddefnyddio blwch 29 (a blwch 30 os oes gennych enillion yn y DU a ystyrir i fod o dramor o dan reolau cwmni sy'n dal asedion cymhwysol) ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati' (SA109) ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026.

Rydych yn breswylydd newydd cymwys os mai dyma un o'ch 4 blynedd cyntaf o breswylio yn y DU ar ôl cyfnod o 10 mlynedd dreth yn olynol o breswylio y tu allan i'r DU, ac nad ydych yn aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi.

> I gael rhagor o wybodaeth am y gyfundrefn FIG, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS266'.

Does dim rhaid i chi lenwi'r tudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf' os ydych ond yn gwerthu neu'n gwaredu'r canlynol:

- ceir preifat
- eiddo personol (siatelau) sy'n werth hyd at £6,000 yr un, megis gemwaith, paentiadau neu hynafolion
- stociau a chyfranddaliadau sydd gennych mewn cyfrifon cynilion buddsoddi rhydd o dreth, megis Cyfrifon Cynilo Unigol (ISAs) a Chynlluniau Ecwiti Personol (PEPs)
- stociau Llywodraeth y DU neu warantau gilt, er enghraifft, Tystysgrifau Cynilion Cenedlaethol, Bondiau Premiwm a stoc benthyciad a roddir gan y Trysorlys
- eich prif gartref, os ydych yn gymwys i gael Rhyddhad Preswyl Preifat ar swm llawn yr ennill

> I gael rhagor o wybodaeth am siatelau (eiddo personol), ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS293'.
>
> I gael rhagor o wybodaeth am Ryddhad Preswyl Preifat, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS283'.

Does dim angen i chi gynnwys y canlynol ar y tudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf':

- enillion o fetio, y loteri neu'r pyllau pêl-droed
- iawndal am anaf personol neu Yswiriant Diogelu Taliadau (PPI) a gam-werthwyd
- unrhyw arian tramor y gwnaethoch brynu at eich defnydd chi neu eich teulu y tu allan i'r DU

## Cyn i chi ddechrau arni

Cyn i chi lenwi'r tudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf', mae'n rhaid i chi gyfrifo'ch enillion neu golledion. Rhain yw eich cyfrifiannau (cyfrifiadau).

Mae yna daflen waith ar dudalen CGN 15 y nodiadau hyn y gellir ei defnyddio i wneud cyfrifiadau syml o enillion neu golledion pan waredir tir, asedion eraill a daliadau cyfan o gyfranddaliadau.

Ni allwch ddefnyddio'r daflen waith os yw'r canlynol yn berthnasol:

- cawsoch eich ased drwy weithredu opsiwn
- mae'r gwarediad yn warediad rhannol
- rhaid i chi ychwanegu eich enillion a'ch colledion at ei gilydd i ganfod cyfanswm y swm a enillwyd yr hoffech hawlio Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes ar ei gyfer

Bydd angen cyfrifiant ar wahân arnoch (neu daflen waith ar gyfer cyfrifiadau syml) ar gyfer pob ased neu fath o ased y gwnaethoch ei werthu neu ei waredu.

Mae'n rhaid i chi anfon eich cyfrifiannau, prisiadau, ffurflenni cais penodol ac unrhyw daflenni gwaith atom gyda thudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf' eich Ffurflen Dreth. Llenwch bob blwch sy'n berthnasol i chi. Peidiwch â rhoi llinell drwy unrhyw flwch, na nodi 'gweler yr atodiad' ynddynt.

## Geiriau allweddol

Fe welwch y geiriau allweddol canlynol (gydag esboniadau cryno) yn y nodiadau hyn.

### Asedion

Asedion yw pethau yr ydych yn berchen arnynt, megis:

- stociau, cyfranddaliadau, unedau mewn ymddiriedolaeth unedol a buddsoddiadau eraill
- eiddo, gan gynnwys tir, adeiladau a phrydlesau
- asedion busnes ac eiddo, hawlfraint, nod masnach cofrestredig
- ewyllys da – hynny yw, enw da'r busnes
- hynafolion a meddiannau personol eraill sy'n werth mwy na £6,000, megis
  - – eitemau casglwyr (er enghraifft, set gwyddbwyll)
  - – gwaith celf
  - – dodrefn neu emwaith
- cryptoasedion

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am gryptoasedion, ewch i www.gov.uk/guidance/check-if-you-need-to-pay-tax-when-you-sell-cryptoassets

### Gwarediadau

Rydych fel arfer yn gwaredu ased pan nad ydych yn berchen arno fwyach. Er enghraifft, os ydych:

- yn ei werthu
- yn ei roi yn rhad ac am ddim
- yn ei drosglwyddo
- yn ei gyfnewid am rywbeth arall

At ddibenion Treth Enillion Cyfalaf, mae gwarediad yn cynnwys gwarediad rhannol. Er enghraifft, mae'n bosibl eich bod wedi gwaredu cyfran rannol mewn tŷ y gwnaethoch ei etifeddu neu eich bod wedi gwerthu hanner eich casgliad o ddodrefn hynafol.

Weithiau rydych wedi gwaredu rhan o'r ased neu'r ased cyfan, hyd yn oed os ydych yn dal i fod yn berchen arno. Er enghraifft, pan rydych:

- yn cael arian o yswiriant am ased wedi'i ddifrodi
- yn gwneud hawliad bod ased wedi dod yn ddi-werth (a elwir yn hawliad am swm pitw)

### Enillion o werthiannau neu warediadau

Gall enillion gynnwys:

- arian parod, sy'n daladwy nawr neu yn y dyfodol, neu unrhyw beth a ellir ei droi yn arian parod, oni bai ei fod yn drethadwy fel incwm
- gwerth yr ased ar y farchnad a gafwyd yn gyfnewid am yr ased a waredwyd gennych
- gwerth yr hawl i gael taliadau yn y dyfodol pan nad ydych mewn sefyllfa i wybod y swm hwnnw ar ddyddiad y gwarediad

Weithiau mae'n rhaid i chi ddefnyddio gwerth yr ased ar y farchnad yn lle'r pris gwerthu neu brynu.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio gwerth ar y farchnad, ewch i www.gov.uk/treth-enillion-cyfalaf/gwerth-marchnadol

### Trosglwyddo asedion rhwng pobl gysylltiedig

Os byddwch yn gwerthu neu'n rhoi ased i berson cysylltiedig, neu'n cael ased gan berson cysylltiedig, efallai bydd angen i chi ddefnyddio gwerth yr ased ar y farchnad yn lle'r pris a dalwyd pan fyddwch yn cyfrifo'ch enillion neu'ch colledion.

Os ydych yn gwneud colled, dim ond yn erbyn enillion rydych yn eu gwneud ar warediadau eraill i'r un person cysylltiedig y gallwch ddefnyddio'r golled honno.

Colled rwystredig yw hon. Rhaid i chi gadw cofnod ar wahân o bob colled rwystredig rydych yn ei chario ymlaen i flynyddoedd diweddarach.

Mae'r term 'person cysylltiedig' yn cynnwys perthnasau, fel:

- eich gŵr, gwraig neu bartner sifil
- eich brodyr a'ch chwiorydd chi a brodyr a chwiorydd eich partner
- eich rhieni a'ch neiniau a'ch teidiau chi a'ch partner, a hynafiaid eraill
- eich plant chi, plant eich partner a disgynyddion uniongyrchol eraill
- partneriaid y perthnasau a nodir uchod

Mae hefyd yn cynnwys:

- eich partneriaid busnes a'u partneriaid a'u perthnasau nhw (heblaw am gaffaeliadau masnachol gwirioneddol neu waredu asedion partneriaeth)
- unrhyw gwmni rydych yn ei reoli, ar eich pen eich hun neu gydag unrhyw berthynas a nodir uchod
- ymddiriedolwyr setliad lle rydych chi neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â chi yn setlwr

Mae rheolau arbennig yn berthnasol i drafodion rhwng priod neu bartneriaid sifil, ac ar wahanu, ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS281'.

### Costau caniataol

At ddibenion Treth Enillion Cyfalaf, rydych yn didynnu eich costau i gyfrifo'r ennill neu golled ar werthiant neu warediad ased. Dim ond rhai costau sy'n ganiataol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y pris a dalwyd i brynu'r ased
- costau unrhyw welliannau a wneir i'ch ased – ond rhaid iddynt gael eu hadlewyrchu yn yr ased ar adeg ei waredu
- costau sy'n gysylltiedig â chaffael neu waredu'r ased, megis Treth Stamp neu Dreth Dir y Tollau Stamp

Os ydych yn gwaredu ased yr oeddech yn berchen arno ar 31 Mawrth 1982, cyfyngir enillion neu golledion i swm yr enillion neu golledion drwy gyfeirio at eu gwerth ar y dyddiad hwnnw. Weithiau mae'n rhaid i chi ddefnyddio gwerth yr ased ar y farchnad yn lle'r gost wirioneddol – er enghraifft, os cawsoch yr ased fel rhodd.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio'r gwerth marchnadol, ewch i www.gov.uk/treth-enillion-cyfalaf/gwerth-marchnadol

### Colledion caniataol

Mae'n bosibl y gwnewch golled pan fyddwch yn gwerthu neu fel arall yn gwaredu ased sy'n agored i Dreth Enillion Cyfalaf. Bydd y golled fel arfer yn golled ganiataol, ar yr amod eich bod yn gwneud hawliad amdani.

Mae'n bosibl nad yw colledion o ganlyniad i gynlluniau arbed treth yn golledion caniataol. Nid yw'r golled yn golled ganiataol os yw'n golled o ganlyniad i waredu ased tramor yn ystod blwyddyn pan wnaethoch hawliad am incwm tramor, hawliad am enillion tramor neu ddewis Rhyddhad Diwrnod Gwaith Tramor (OWR) o dan y gyfundrefn FIG. Ni all y golled cyfalaf gael ei chario ymlaen.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/treth-enillion-cyfalaf/colledion

## Trosolwg cyffredinol o enillion cyfalaf a cholledion

Weithiau mae'r rheolau ar gyfer cyfrifo enillion a cholledion cyfalaf yn gymhleth ac nid yw'r nodiadau hyn yn ceisio esbonio popeth a allai effeithio ar eich cyfrifiannau enillion cyfalaf. Efallai y bydd angen taflenni cymorth arnoch i'ch helpu i lenwi'r tudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf'. Ceir rhagor o fanylion yn yr adran berthnasol.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am enillion cyfalaf, ac i fwrw golwg dros y taflenni cymorth, ewch i www.gov.uk/personal-tax/capital-gains-tax

## Sut i wneud cais, dewis neu roi rhybudd ynglŷn â Threth Enillion Cyfalaf

Gallwch ddefnyddio eich tudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf' i:

- gwneud cais am ryddhad yn erbyn enillion cyfalaf
- gwneud dewis
- rhoi rhybudd, er enghraifft, i roi gwybod i ni eich bod wedi gwneud colled cyfalaf ganiataol yn ystod y flwyddyn dreth


Er mwyn gwneud cais, dewis neu roi rhybudd, defnyddiwch y tabl isod. Rhowch y cod 3 llythyren priodol ym mlwch 8, 13.6, 20, 28 neu 36 (pa un bynnag sy'n berthnasol).

Bydd angen i chi hefyd roi manylion llawn eich hawliad, dewis neu rybudd ym mlwch 54, 'Unrhyw wybodaeth arall'.

| Hawliad, dewis neu rybudd | Cod |
|---|---|
| Rhyddhad Preswylfan Breifat lle nad yw Rhyddhad Gosod yn berthnasol | PRR |
| Rhyddhad Preswylfan Breifat lle mae Rhyddhad Gosod yn berthnasol | LET |
| Rhyddhad Daliol ar Roddion | GHO |
| Rhyddhad Treigl | ROR |
| Rhyddhad Treigl Dros Dro | PRO |
| Cyfranddaliadau Cyflogeion | ESH |
| Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes | BAD |
| Rhyddhad Buddsoddwyr | INV |
| Hawliadau am Symiau Pitw | NVC |
| Ymddiriedolaeth Perchnogaeth Cyflogeion | EOT |
| Hawliadau eraill | OTH |
| Os oes mwy nag un cod yn berthnasol | MUL |

### Blychau 1 a 2

Rhowch eich enw llawn a'ch Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) yn y blychau ar frig y tudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf'. Mae eich UTR ar unrhyw lythyrau a gewch gennym.


1 Eich enw
2 Eich Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)
Rhaid i chi amgáu'ch cyfrifiannau, gan gynnwys manylion yr holl enillion neu golledion, yn ogystal â llenwi'r

Enghraifft o dudalen 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf'

Mae'r dudalen 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf' wedi'i rhannu'n 9 adran:

- Eiddo preswyl a buddiant a drosglwyddir (blychau 3 i 13C)
- Cryptoasedion (blychau 13.1 i 13.8)
- Eiddo, asedion ac enillion eraill (blychau 14 i 22)
- Cyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd (blychau 23 i 30)
- Cyfranddaliadau a gwarantau nas rhestrwyd (blychau 31 i 44)
- Colledion ac addasiadau (blychau 45 i 52)
- Treth Enillion Cyfalaf ar gyfer Person nad yw'n Breswyl (NRCGT) ar eiddo neu dir yn y DU a gwarediadau anuniongyrchol (blychau 52.1 i 52.5)
- Enillion ar warantau mynegeiedig sydd wedi'u heithrio ac enillion a cholledion ar ailbrynu cyfranddaliadau ac adbrynu gwarantau gan gwmni sy'n dal asedion cymwys (QAHC) (blychau 52EG i 52QL) – dylai manylion unrhyw enillion neu golledion fod wedi'u cynnwys hefyd yn yr adrannau perthnasol ar dudalennau CG1 a CG2
- Unrhyw wybodaeth arall (blwch 53 a blwch 54)

Teitlau cyffredinol yw'r rhain ac mae manylion yr hyn y dylid ei gynnwys ym mhob adran wedi'u cynnwys yn y nodiadau hyn.

## Rheolau cyffredinol ar gyfer llenwi blychau'r Ffurflen Dreth

Mae'n rhaid i fanylion unrhyw enillion neu golledion ar warediadau, y mae Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes wedi'i hawlio ar eu cyfer ym mlwch 50, gael eu cynnwys hefyd yn yr adran 'Eiddo, asedion ac enillion eraill' ar dudalen CG 2 (oni bai bod y rhain yn ymwneud ag enillion cyfalaf ar gyfer person nad yw'n breswyl – gweler blychau 52.1 i 52.5). Hefyd, gweler yr eithriad ar gyfer blychau 9 a 10.

Ar gyfer pob cofnod o enillion cyfalaf ar gyfer person nad yw'n breswyl, gweler y nodiadau ar gyfer blychau 52.1 i 52.5.

Peidiwch â didynnu'r 'swm blynyddol sydd wedi ei eithrio rhag treth' y byddwch yn ei gael yn awtomatig.

Os ydych yn breswylydd yn y DU a'ch bod wedi cyflwyno unrhyw Ffurflenni Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU neu ddatganiadau Trafodion Amser Real, mae'r Ffurflen Dreth hon yn gofyn am fanylion y datganiadau hyn, ac mae'n rhaid i unrhyw enillion neu golledion gael eu cynnwys gyda chyfansymiau'r enillion a'r colledion ar gyfer unrhyw adran berthnasol.

Os ydych wedi gwneud enillion sy'n ymwneud â blwyddyn flaenorol, ond y mae angen i chi roi cyfrif amdanynt y flwyddyn hon, dylid cynnwys y rhain yn yr adran berthnasol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- os gwnaethoch hawlio Rhyddhad Treigl wrth brynu ased treuliedig
- os gwnaethoch hawlio Rhyddhad Daliol ar Roddion wrth i asedion penodol gael eu trosglwyddo a'ch bod bellach yn ddibreswyl
- os cronnwyd enillion pan nad oeddech yn breswylydd yn y DU dros dro
- os trosglwyddwyd enillion yn ystod y flwyddyn hon nad oedd modd eu trosglwyddo'n flaenorol
- os trosglwyddwyd enillion trethadwy tramor o flwyddyn flaenorol i'r DU yn ystod y flwyddyn hon
- os cafodd enillion ar fondiau corfforaethol cymwys eu gohirio o ganlyniad i ad-drefnu cyfranddaliadau
- os gwnaethoch ohirio enillion ar danysgrifiad ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau neu gyfranddaliadau'r Ymddiriedolaeth Cyfalaf Mentro

## Eiddo preswyl a buddiant a drosglwyddir

Mae eiddo preswyl yn cynnwys buddiannau mewn eiddo y gellir eu defnyddio fel cartref domestig hyd yn oed os na wnaethoch feddiannu'r eiddo eich hun neu eich bod yn ei roi ar osod i denantiaid. Mae buddiannau mewn tir, eiddo, neu'r ddau sy'n cael eu haddasu'n anheddau, neu nad oes unrhyw un yn byw ynddynt ar hyn o bryd, hefyd yn cael eu hystyried fel eiddo preswyl.

Os ydych yn breswylydd yn y DU ac rydych wedi gwaredu buddiant mewn eiddo preswyl a leolir yn y DU, darllenwch yr arweiniad ar gyfer blwch 9 i gael rhagor o wybodaeth am yr anghenion ar gyfer rhoi gwybod yn ystod y flwyddyn.

### Blwch 3  Nifer y gwarediadau

Rhowch nifer y gwarediadau o unrhyw fuddiannau mewn eiddo preswyl ac asedion nas rhestrwyd a wnaethoch ym mlwch 3.

Anwybyddwch warediadau nad ydych yn eu gwneud ar eich rhan eich hun, er enghraifft, gwarediadau a wnewch fel ymddiriedolwr.

Os yw rheolau buddiant a drosglwyddir yn berthnasol, dylech ymdrin â'r rhain fel 'un' gwarediad.

### Blwch 4  Derbyniadau'r gwarediadau

Rhowch gyfanswm derbyniadau'r gwarediadau ar gyfer yr holl fuddion mewn asedion eiddo preswyl (cyn ystyried unrhyw ryddhad neu hawliadau) ym mlwch 4.

### Blwch 5  Costau caniataol (gan gynnwys pris prynu)

Rhowch gyfanswm eich costau caniataol ym mlwch 5.

### Blwch 6  Enillion yn y flwyddyn, cyn colledion

Rhowch gyfanswm unrhyw enillion a wnaethoch ar warediadau o fuddiannau mewn eiddo preswyl ym mlwch 6. Y ffigur hwn yw swm yr enillion ar ôl didynnu unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau, oni bai am ryddhad o dan y gyfundrefn FIG. Dylai unrhyw symiau y byddwch yn hawlio rhyddhad ar eu cyfer o dan y gyfundrefn FIG gael eu cynnwys ym mlwch 6. Ni ddylech ddidynnu symiau y codir Treth Enillion Cyfalaf arnynt ar gyfraddau gwahanol (megis pan ydych yn hawlio Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes (BADR) neu Ryddhad Buddsoddwyr, gweler blychau 49 a 50).

Y ffigur ym mlwch 6 yw cyfanswm yr enillion, heb gynnwys unrhyw golledion, ar gyfer y flwyddyn, ac felly mae'n rhaid iddo gynnwys unrhyw enillion ar eiddo preswyl a gafodd eu cynnwys yn y symiau ym mlwch 9 a blwch 11.

Gweler yr eithriad ym mlwch 9 ar gyfer gwarediadau a nodwyd ar Ffurflen Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU sy'n gymwys i gael Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes.

### Blwch 6.1  Swm a hawliwyd o dan y gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG)

Os ydych wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn FIG ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati' (SA109), rhowch swm yr enillion tramor ar eiddo preswyl yn y flwyddyn (o flwch 6) yr ydych yn hawlio rhyddhad ar ei gyfer ym mlwch 6.1.

### Blwch 7  Colledion yn ystod y flwyddyn

Rhowch gyfanswm unrhyw golledion a wnaethoch drwy waredu buddiannau mewn eiddo preswyl ym mlwch 7. Pennir y ffigur hwn ar ôl ystyried effaith unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau.

Y ffigur hwn yw cyfanswm y colledion ar gyfer y flwyddyn – ac felly mae'n rhaid iddo gynnwys unrhyw golledion a gafodd eu cynnwys yn y symiau ym mlwch 9 a blwch 11. Peidiwch â chynnwys colledion ar y gwarediad o fuddiant mewn eiddo preswyl tramor os ydych yn gwneud hawliad am incwm tramor, hawliad am enillion tramor neu ddewis OWR ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 o dan y gyfundrefn FIG. Ni all y colledion gael eu cario ymlaen.

### Blwch 8  Rhowch y cod perthnasol yn y blwch os ydych yn gwneud hawliad neu ddewis

Os ydych yn gwneud hawliad neu ddewis, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yn eich cyfrifiant. Gallwch ddod o hyd i'r cod 3 llythyren yn y tabl ar dudalen CGN 4.

### Blwch 9  Cyfanswm enillion neu golledion ar eiddo preswyl yn y DU a nodwyd ar Ffurflenni Treth Enillion Cyfalaf ar Waredu Eiddo yn y DU

Pan ydych yn gwaredu rhan o fuddiant, neu'n ei waredu'n gyfan gwbwl, mewn eiddo preswyl yn y DU, ac rydych yn agored i dalu Treth Enillion Cyfalaf, mae'n rhaid i chi roi gwybod i CThEF o fewn amserlen benodol yn dilyn dyddiad cwblhau'r trawsgludiad.

Yr amserlen ar gyfer gwneud hyn yw cyn pen 60 diwrnod o'r dyddiad cwblhau.

> I gael rhagor o wybodaeth am yr anghenion ar gyfer rhoi gwybod, ewch i www.gov.uk/rhoi-gwybod-am-eich-treth-enillion-cyfalaf-a-i-thalu/os-gwnaethoch-werthu-eiddo-yn-y-du-ar-neu-ar-ol-6-ebrill-2020

Os ydych wedi gwaredu buddiant mewn eiddo preswyl yn y DU a'ch bod wedi cynnwys hyn wrth gyflwyno'ch Ffurflen Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU, rhowch gyfanswm yr ennill neu'r golled ym mlwch 9.

Os oedd mwy nag un gwarediad, dylid nodi canlyniad cyfunol yr enillion llai'r colledion. Os oedd y canlyniad ar gyfer y flwyddyn yn golled, rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll o flaen eich ffigur.

Bydd hefyd angen cynnwys yr enillion a'r colledion unigol hyn ym mlwch 6 a blwch 7, yn ôl yr angen.

Nodwch gyfeirnodau unrhyw Ffurflenni Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU a gyflwynwyd ym mlwch 54.

Mae eithriad i'r rheolau hyn yn berthnasol os yw pob rhan o'r enillion y rhoesoch wybod amdanynt ar eich Ffurflen Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU, yn gymwys i gael Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes. Pan fo hyn yn berthnasol, dylid cynnwys yr enillion yn y cyfanswm ym mlwch 17 ac nid ym mlwch 9 (nac yn y cyfanswm ym mlwch 6). Hefyd, dylid rhoi swm yr enillion y rhoesoch wybod amdanynt ar eich Ffurflen Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU ym mlwch 21, nid ym mlwch 9.

Os oes rhan o'r enillion nad yw'n gymwys i gael Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes, yna nodwch y rhan honno nad yw'n gymwys ym mlwch 9 (ac yn y cyfanswm ym mlwch 6) a nodwch y rhan sy'n gymwys ym mlwch 21 (ac yn y cyfanswm ym mlwch 17).

Os yw'r eithriad yn berthnasol, rhowch fanylion yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', sef blwch 54. Nodwch gyfeirnod y Ffurflen Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU a wnaed a'r symiau a nodwyd ym mlychau 21 a 22 yn hytrach na blychau 9 a 10.

### Blwch 10 Treth ar enillion ym mlwch 9 a godwyd yn barod

Nodwch gyfanswm y dreth yr oedd yn rhaid i chi ei thalu ar y Ffurflenni Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU a wnaed ar gyfer y flwyddyn.

Mae eithriad i'r rheol hon yn berthnasol os yw pob rhan o ennill, y rhoesoch wybod amdano ar eich Ffurflen Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU, yn gymwys i gael Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes, ac os nad oes angen rhoi gwybod am unrhyw enillion neu golledion eraill ym mlwch 9. Pan fo hyn yn berthnasol, dylid cynnwys y dreth a godwyd ar y Ffurflen Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU yn y cyfanswm ym mlwch 22 ac nid ym mlwch 10.

### Blwch 11 Cyfanswm enillion neu golledion ar eiddo preswyl nad yw yn y DU neu fuddiant a drosglwyddir a nodwyd ar ddatganiadau Trafodion Amser Real

Os ydych wedi cyflwyno datganiadau gan ddefnyddio'r gwasanaeth Treth Enillion Cyfalaf 'amser real', rhowch gyfanswm yr enillion neu'r colledion ym mlwch 11. Os oedd y canlyniad ar gyfer y flwyddyn yn golled, rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll o flaen eich ffigur.

Bydd hefyd angen cynnwys yr enillion a'r colledion unigol hyn ym mlwch 6, blwch 7 a blwch 13, 13A a 13B, yn ôl yr angen.

Nodwch gyfeirnodau unrhyw gyflwyniadau Treth Enillion Cyfalaf 'amser real' a wnaed ym mlwch 54.

### Blwch 12 Treth ar enillion ym mlwch 11 a dalwyd yn barod

Ym mlwch 12, rhowch gyfanswm y dreth y gwnaethoch ei thalu ar enillion a nodwyd ym mlwch 11, pan wnaethoch ddefnyddio gwasanaeth Treth Enillion Cyfalaf 'amser real'.

### Blwch 13 Buddiant a drosglwyddir (ar sail sy'n codi)

Rhowch swm yr enillion a gafwyd o ganlyniad i fuddiant a drosglwyddir, wedi'i gyfrifo ar y sail sy'n codi (y sail arferol) cyn didynnu unrhyw hawliad neu ddewis, ym mlwch 13. Mae'n rhaid i'r ffigur hwn gynnwys unrhyw enillion ar y sail sy'n codi a gynhwyswyd yn y swm ym mlwch 11.

### Blwch 13A Buddiant a drosglwyddir (sail croniadau)

Os gwnaethoch ddewis bod yr enillion ar fuddiant a drosglwyddir yn cael eu cyfrifo ar sail croniadau, rhowch swm yr enillion a gyfrifwyd ar sail croniadau, cyn didynnu unrhyw hawliad neu ddewis, ym mlwch 13A.

Mae'n rhaid i'r ffigur hwn gynnwys unrhyw enillion ar sail croniadau a gynhwyswyd yn y swm ym mlwch 11.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am ddewisiadau ar sail croniadau, ewch i www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/investment-funds/ifm37710

### Blwch 13B Enillion ar fuddiant a drosglwyddir yn y flwyddyn

Rhowch gyfanswm yr enillion ar fuddiant a drosglwyddir ym mlwch 13 a 13A, llai unrhyw hawliad neu ddewis ym mlwch 13B. Peidiwch â didynnu hawliadau am ryddhad o dan y gyfundrefn FIG. Dylai unrhyw symiau y byddwch yn hawlio rhyddhad ar eu cyfer o dan y gyfundrefn FIG gael eu cynnwys ym mlwch 13B.

### Blwch 13C Swm a hawliwyd o dan y gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG)

Os ydych wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn FIG ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati' (SA109), rhowch swm yr enillion tramor ar fuddiant a drosglwyddir yn y flwyddyn (o flwch 13B) yr ydych yn hawlio rhyddhad ar ei gyfer ym mlwch 13C.

### Blychau 13, 13A, 13B a 13C

Ni fydd y blychau hyn yn berthnasol mewn nifer o achosion.

## Cryptoasedion

### Blwch 13.1 Nifer y gwarediadau

Rhowch nifer y gwarediadau a wnaethoch yn y flwyddyn ym mlwch 13.1.

Anwybyddwch warediadau nad ydych yn eu gwneud ar eich rhan eich hun, er enghraifft, gwarediadau a wnewch fel ymddiriedolwr.

### Blwch 13.2 Derbyniadau'r gwarediadau

Rhowch gyfanswm derbyniadau'r gwarediadau (cyn didynnu unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau) ym mlwch 13.2.

### Blwch 13.3 Costau caniataol (gan gynnwys pris prynu)

Rhowch gyfanswm eich costau caniataol ym mlwch 13.3.

### Blwch 13.4 Enillion yn y flwyddyn, cyn colledion

Rhowch gyfanswm unrhyw enillion a wnaethoch ym mlwch 13.4. Y ffigur hwn yw swm yr enillion ar ôl didynnu unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau. Ni ddylech ddidynnu symiau y codir Treth Enillion Cyfalaf arnynt ar gyfraddau gwahanol (megis pan ydych yn hawlio Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes (BADR) neu Ryddhad Buddsoddwyr, gweler blychau 49 a 50). Mae'n rhaid i'r ffigur ym mlwch 13.4 gynnwys unrhyw enillion o fewn swm blwch 13.7.

### Blwch 13.5 Colledion yn y flwyddyn

Rhowch gyfanswm unrhyw golledion a wnaethoch drwy waredu ym mlwch 13.5. Pennir y ffigur hwn ar ôl ystyried effaith unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau. Mae'n rhaid i'r ffigur hwn gynnwys unrhyw golledion o fewn swm blwch 13.7.

### Blwch 13.6 Rhowch y cod perthnasol yn y blwch os ydych yn gwneud unrhyw hawliad neu ddewis

Os ydych yn gwneud hawliad neu ddewis, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yn eich cyfrifiant. Gallwch ddod o hyd i'r cod 3 llythyren yn y tabl ar dudalen CGN 4.

### Blwch 13.7 Cyfanswm enillion neu golledion ar y gwarediad o ased o'r fath y rhoddwyd gwybod amdano ar ddatganiadau Trafodion Amser Real

Os ydych wedi gwaredu cryptoasedion ac wedi cynnwys hwn wrth ddefnyddio'r gwasanaeth Treth Enillion Cyfalaf 'amser real', rhowch gyfanswm yr enillion neu'r colledion yn y blwch. Os oedd y canlyniad ar gyfer y flwyddyn yn golled, rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll o flaen eich ffigur. Bydd hefyd angen cynnwys yr enillion a'r colledion unigol hyn o fewn cyfansymiau blwch 13.4 a blwch 13.5, yn ôl yr angen.

Nodwch y cyfeirnodau ar gyfer unrhyw gyflwyniadau Treth Enillion Cyfalaf 'amser real' a wnaed ym mlwch 54.

### Blwch 13.8 Treth ar enillion ym mlwch 13.7 a dalwyd yn barod

Ym mlwch 13.8, nodwch gyfanswm y dreth y gwnaethoch ei thalu ar enillion ym mlwch 13.7, pan wnaethoch ddefnyddio gwasanaeth Treth Enillion Cyfalaf 'amser real'.

## Eiddo, asedion ac enillion eraill

Mae'r adran hon o'r Ffurflen Dreth ar gyfer enillion a cholledion ar waredu asedion na chwmpasir mewn man arall. Yn ogystal, rhaid cynnwys manylion unrhyw enillion neu golledion ar warediadau yr hawliwyd Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes (Rhyddhad Entrepreneuriaid yn gynt) arnynt yn yr adran hon.

### Blwch 14 Nifer y gwarediadau

Rhowch nifer y gwarediadau o unrhyw eiddo (ac eithrio eiddo preswyl) neu asedion a wnaethoch ym mlwch 14.

Os ydych wedi priodoli enillion i'w cynnwys ym mlwch 17, dylech drin y rhain fel 'un' gwarediad ym mlwch 14.

Anwybyddwch warediadau nad ydych yn eu gwneud ar eich rhan eich hun, er enghraifft, gwarediadau a wnewch fel ymddiriedolwr.

### Blwch 15 Derbyniadau'r gwarediadau

Rhowch gyfanswm derbyniadau'r gwarediadau ar gyfer eiddo ac asedion eraill (cyn ystyried unrhyw ryddhad neu hawliadau) ym mlwch 15.

### Blwch 16 Costau caniataol (gan gynnwys pris prynu)

Rhowch gyfanswm eich costau caniataol ym mlwch 16.

### Blwch 17 Enillion yn y flwyddyn, cyn colledion

Rhowch gyfanswm unrhyw enillion a wnaethoch ar waredu eiddo ac asedion eraill ym mlwch 17. Y ffigur hwn yw swm yr enillion ar ôl didynnu unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau, oni bai am ryddhad o dan y gyfundrefn FIG. Dylai unrhyw symiau y byddwch yn hawlio rhyddhad ar eu cyfer o dan y gyfundrefn FIG gael eu cynnwys ym mlwch 17. Ni ddylech ddidynnu symiau y codir Treth Enillion Cyfalaf arnynt ar gyfraddau gwahanol (megis pan ydych yn hawlio Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes (BADR) neu Ryddhad Buddsoddwyr, gweler blychau 49 a 50).

Mae'n rhaid i'r ffigur hwn ym mlwch 17 gynnwys:

- swm yr enillion ar eiddo preswyl yr ydych yn hawlio Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes ar eu cyfer
- cyfanswm yr enillion ar bob math arall o ased yr ydych yn hawlio Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes ar eu cyfer, nid swm y rhyddhad a hawlir gennych yn unig
- enillion ar unrhyw asedion eraill sydd heb eu nodi unman arall
- unrhyw enillion o fewn swm blwch 21, ond nid unrhyw enillion a briodolwyd a oedd wedi'u cynnwys ym mlwch 18

Dylech ond didynnu colledion os ydych wedi'u cynnwys mewn hawliad am Ryddhad Gwaredu Ased Busnes.

**Mae blychau 17.0 i 17.4 ar gyfer pob swm sydd eisoes wedi'u cynnwys yng nghyfanswm blwch 17**

### Blwch 17.0  Swm a hawliwyd o dan y gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG)

Os ydych wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn FIG ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati' (SA109), rhowch swm yr enillion tramor (o flwch 17) yr ydych yn hawlio rhyddhad ar ei gyfer ym mlwch 17.0.

### Blwch 17.1

Rhowch y swm y cynhwyswyd ym mlwch 17 sy'n gysylltiedig ag adeiladau a thir nad ydynt yn breswyl.

### Blychau 17.2 i 17.4  Asedion yr hawliwyd Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes ar eu cyfer

Rhowch y cyfanswm y gwnaethoch gynnwys ym mlwch 17 ar gyfer:

- 17.2 Eiddo preswyl, ac adeiladau a thir nad ydynt yn breswyl
- 17.3 Cyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd, a chyfranddaliadau a gwarantau nas restrwyd
- 17.4 Asedion eraill

### Blwch 19  Colledion yn y flwyddyn

Rhowch gyfanswm unrhyw golledion a wnaethoch ar waredu eiddo ac asedion ym mlwch 19. Pennir y ffigur hwn ar ôl ystyried effaith unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau. Mae'n rhaid i'r ffigur hwn gynnwys unrhyw golledion o fewn swm blwch 21.

Dylid cyfrif unrhyw golledion ar warediadau sy'n gysylltiedig â hawliad am Ryddhad Gwaredu Ased Busnes ym mlwch 17.

Peidiwch â chynnwys colledion ar y gwarediad o asedion tramor os ydych yn gwneud hawliad am incwm tramor, hawliad am enillion tramor neu ddewis OWR ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 o dan y gyfundrefn FIG. Ni all y colledion gael eu cario ymlaen.

### Blwch 20  Rhowch y cod perthnasol yn y blwch os ydych yn gwneud unrhyw hawliad neu ddewis

Os ydych yn gwneud hawliad neu ddewis, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yn eich cyfrifiant. Gallwch ddod o hyd i'r cod 3 llythyren yn y tabl ar dudalen CGN 4.

### Blwch 21  Cyfanswm enillion neu golledion ar y gwarediad o ased o'r fath y rhoddwyd gwybod amdano ar ddatganiadau Trafodion Amser Real

Os ydych wedi gwaredu eiddo ac asedion eraill ac wedi cynnwys hyn pan wnaethoch ddefnyddio'r gwasanaeth Treth Enillion Cyfalaf 'amser real', rhowch gyfanswm yr enillion neu'r colledion yn y blwch. Os oedd y canlyniad ar gyfer y flwyddyn yn golled, rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll o flaen eich ffigur.

Bydd hefyd angen cynnwys yr enillion a'r colledion unigol hyn ym mlwch 17, blwch 18 a blwch 19, yn ôl yr angen.

Nodwch y cyfeirnodau ar gyfer unrhyw gyflwyniadau Treth Enillion Cyfalaf 'amser real' a wnaed ym mlwch 54.

Mae eithriad i'r rheolau hyn yn berthnasol os yw pob rhan o'r enillion y rhoesoch wybod amdanynt ar eich Ffurflen Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU, yn gymwys i gael Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes. Gweler y nodyn ar gyfer blwch 9.

### Blwch 22  Treth ar enillion ym mlwch 21 a dalwyd yn barod

Ym mlwch 22, rhowch gyfanswm y dreth y gwnaethoch ei thalu ar enillion ym mlwch 21, pan wnaethoch ddefnyddio gwasanaeth Treth Enillion Cyfalaf 'amser real'.

Mae eithriad i'r rheol hwn yn berthnasol os yw pob rhan o'r enillion y rhoesoch wybod amdanynt ar eich Ffurflen Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU, yn gymwys i gael Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes. Gweler y nodyn ar gyfer blwch 10.

## Cyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd

Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyfranddaliadau neu warantau gan gwmni sydd wedi'i restru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig
- cyfranddaliadau mewn cwmni buddsoddi penagored yn y DU
- unedau mewn ymddiriedolaeth unedol awdurdodedig

Os oes gennych unrhyw gyfranddaliadau a gwarantau nas rhestrwyd, llenwch flychau 31 i 44. Hefyd, defnyddiwch yr adran 'Cyfranddaliadau a gwarantau nas rhestrwyd' ar gyfer yr holl gyfranddaliadau a gwarantau lle mae unrhyw rai o'r canlynol yn berthnasol:

- Statws Cyflogai sy'n Gyfranddaliwr
- Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau
- Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau 'Seed'
- Rhyddhad colledion cyfranddaliadau pan hawlir colledion yn erbyn incwm
- Gwarediadau i Ymddiriedolaethau Perchnogaeth Cyflogeion

### Blwch 23  Nifer y gwarediadau

Rhowch nifer y gwarediadau a wnaethoch ar gyfer y flwyddyn ym mlwch 23.

Dylech gyfrif holl warediadau cyfranddaliadau neu warantau o'r un dosbarth yn yr un cwmni a wnaed ar yr un diwrnod fel 'un' gwarediad.

Anwybyddwch warediadau nad ydych yn eu gwneud ar eich rhan eich hun, er enghraifft, gwarediadau a wnewch fel ymddiriedolwr.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am gyfranddaliadau a Threth Enillion Cyfalaf, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS284'.

### Blwch 24  Derbyniadau'r gwarediadau

Rhowch gyfanswm derbyniadau'r gwarediadau (cyn didynnu unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau) ym mlwch 24.

### Blwch 25 Costau caniataol (gan gynnwys pris prynu)

Rhowch gyfanswm eich costau caniataol ym mlwch 25.

### Blwch 26 Enillion yn y flwyddyn, cyn colledion

Rhowch gyfanswm unrhyw enillion a wnaethoch ym mlwch 26. Y ffigur hwn yw swm yr enillion ar ôl didynnu unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau, oni bai am ryddhad o dan y gyfundrefn FIG. Dylai unrhyw symiau y byddwch yn hawlio rhyddhad ar eu cyfer o dan y gyfundrefn FIG gael eu cynnwys ym mlwch 26. Ni ddylech ddidynnu symiau y codir Treth Enillion Cyfalaf arnynt ar gyfraddau gwahanol (megis pan ydych yn hawlio Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes (BADR) neu Ryddhad Buddsoddwyr, gweler blychau 49 a 50).

Mae'n rhaid i'r ffigur ym mlwch 26 gynnwys unrhyw enillion o fewn swm blwch 29.

### Blwch 26.1 Swm a hawliwyd o dan y gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG)

Os ydych wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn FIG ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati' (SA109), rhowch swm yr enillion tramor ar gyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd (o flwch 26) yr ydych yn hawlio rhyddhad ar ei gyfer ym mlwch 26.1.

### Blwch 27 Colledion yn y flwyddyn

Rhowch gyfanswm unrhyw golledion a wnaethoch drwy waredu ym mlwch 27. Pennir y ffigur hwn ar ôl ystyried effaith unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau. Mae'n rhaid i'r ffigur hwn gynnwys unrhyw golledion o fewn swm blwch 29.

Peidiwch â chynnwys colledion ar y gwarediad o gyfranddaliadau a gwarantau tramor a restrwyd os ydych yn gwneud hawliad am incwm tramor, hawliad am enillion tramor neu ddewis OWR ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 o dan y gyfundrefn FIG. Ni all y colledion gael eu cario ymlaen.

### Blwch 28 Rhowch y cod perthnasol yn y blwch os ydych yn gwneud hawliad neu ddewis

Os ydych yn gwneud hawliad neu ddewis, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yn eich cyfrifiant. Gallwch ddod o hyd i'r cod 3 llythyren yn y tabl ar dudalen CGN 4.

### Blwch 29 Cyfanswm enillion neu golledion ar y gwarediad o ased o'r fath y rhoddwyd gwybod amdano ar ddatganiadau Trafodion Amser Real

Os ydych wedi gwaredu cyfranddaliadau neu warantau a restrwyd ac wedi cynnwys hyn pan wnaethoch ddefnyddio'r gwasanaeth Treth Enillion Cyfalaf 'amser real', rhowch gyfanswm yr enillion neu'r colledion yn y blwch. Os oedd y canlyniad ar gyfer y flwyddyn yn golled, rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll o flaen eich ffigur. Bydd hefyd angen cynnwys yr enillion a'r colledion unigol hyn o fewn cyfansymiau blwch 26 a blwch 27, yn ôl yr angen.

Nodwch gyfeirnod unrhyw gyflwyniadau Treth Enillion Cyfalaf 'amser real' a wnaed ym mlwch 54.

### Blwch 30 Treth ar enillion ym mlwch 29 a dalwyd yn barod

Ym mlwch 30, nodwch gyfanswm y dreth y gwnaethoch ei thalu ar enillion ym mlwch 29, pan wnaethoch ddefnyddio gwasanaeth Treth Enillion Cyfalaf 'amser real'.

## Cyfranddaliadau a gwarantau nas rhestrwyd

Y rhain yw unrhyw gyfranddaliadau a gwarantau sydd heb eu cynnwys yn yr adran 'cyfranddaliadau a restrwyd'. Er enghraifft, mae cyfranddaliadau mewn cwmnïau'r Farchnad Buddsoddi Amgen yn rhai 'nas rhestrwyd', neu mae rhyddhadau penodol yn berthnasol iddynt. Dylai pob gwarediad sy'n gymwys i gael rhyddhad Ymddiriedolaethau Perchnogaeth Cyflogeion hefyd gael eu cynnwys yn yr adran hon.

### Blwch 31 Nifer y gwarediadau

Rhowch nifer y gwarediadau a wnaethoch yn y flwyddyn ym mlwch 31.

Dylech gyfrif holl warediadau cyfranddaliadau neu warantau o'r un dosbarth yn yr un cwmni a wnaed ar yr un diwrnod fel 'un' gwarediad.

Anwybyddwch warediadau nad ydych yn eu gwneud ar eich rhan eich hun, er enghraifft, gwarediadau a wnewch fel ymddiriedolwr.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am gyfranddaliadau a Threth Enillion Cyfalaf, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS284'.

### Blwch 32 Derbyniadau'r gwarediadau

Rhowch gyfanswm derbyniadau'r gwarediadau (cyn didynnu unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau) ym mlwch 32.

### Blwch 33 Costau caniataol (gan gynnwys pris prynu)

Rhowch gyfanswm eich costau caniataol ym mlwch 33.

### Blwch 34 Enillion yn y flwyddyn, cyn colledion

Rhowch gyfanswm unrhyw enillion a wnaethoch ym mlwch 34. Y ffigur hwn yw swm yr enillion ar ôl didynnu unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau, oni bai am ryddhad o dan y gyfundrefn FIG. Dylai unrhyw symiau y byddwch yn hawlio rhyddhad ar eu cyfer o dan y gyfundrefn FIG gael eu cynnwys ym mlwch 34. Ni ddylech ddidynnu symiau y codir Treth Enillion Cyfalaf arnynt ar gyfraddau gwahanol (megis pan ydych yn hawlio Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes (BADR) neu Ryddhad Buddsoddwyr, gweler blychau 49 a 50).

Mae'n rhaid i'r ffigur ym mlwch 34 gynnwys unrhyw enillion o fewn swm blwch 37 a blwch 39.

Dylech ond cynnwys enillion ar warediadau sy'n gymwys i gael rhyddhad Ymddiriedolaeth Perchnogaeth Cyflogeion, a hynny os digwyddodd y gwarediad hwnnw ar neu ar ôl 26 Tachwedd 2025. Ym mlwch 34, dylech gynnwys swm yr enillion llai y swm sy'n gymwys i gael esemptiad. Bydd angen Taflen Gymorth 277 'Ymddiriedolaethau Perchnogaeth Cyflogeion' arnoch.

> I gael rhagor o wybodaeth am Ymddiriedolaethau Perchnogaeth Cyflogeion, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS277'.

### Blwch 34.1 Swm a hawliwyd o dan y gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG)

Os ydych wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn FIG ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati' (SA109), rhowch swm yr enillion tramor a wnaed ar gyfranddaliadau a gwarantau nas restrwyd (o flwch 34) yr ydych yn hawlio rhyddhad ar ei gyfer ym mlwch 34.1.

### Blwch 35 Colledion yn y flwyddyn

Rhowch gyfanswm unrhyw golledion a wnaethoch drwy waredu ym mlwch 35. Pennir y ffigur hwn ar ôl ystyried effaith unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau. Mae'n rhaid i'r ffigur hwn gynnwys unrhyw enillion o fewn swm blwch 37.

Peidiwch a chynnwys colledion ar y gwarediad o gyfranddaliadau a gwarantau tramor a restrwyd os ydych yn gwneud hawliad am incwm tramor, hawliad am enillion tramor neu ddewis OWR ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 o dan y gyfundrefn FIG. Ni all y colledion gael eu cario ymlaen.

### Blwch 36 Rhowch y cod perthnasol yn y blwch os ydych yn gwneud hawliad neu ddewis

Os ydych yn gwneud hawliad neu ddewis, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yn eich cyfrifiant. Gallwch ddod o hyd i'r cod 3 llythyren yn y tabl ar dudalen CGN 4.

### Blwch 37 Cyfanswm enillion neu golledion ar y gwarediad o ased o'r fath y rhoddwyd gwybod amdano ar ddatganiadau Trafodion Amser Real

Os ydych wedi gwaredu cyfranddaliadau a gwarantau nas rhestrwyd ac wedi cynnwys hyn pan wnaethoch ddefnyddio'r gwasanaeth Treth Enillion Cyfalaf 'amser real', rhowch gyfanswm yr enillion neu'r colledion yn y blwch. Os oedd y canlyniad ar gyfer y flwyddyn yn golled, rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll o flaen eich ffigur.

Bydd hefyd angen cynnwys yr enillion a'r colledion unigol hyn o fewn cofnodion blwch 34 neu flwch 35, yn ôl yr angen.

Nodwch gyfeirnod unrhyw gyflwyniadau Treth Enillion Cyfalaf 'amser real' a wnaed ym mlwch 54.

### Blwch 38 Treth ar yr enillion ym mlwch 37 a dalwyd yn barod

Ym mlwch 38, rhowch gyfanswm y dreth y gwnaethoch ei thalu ar enillion ym mlwch 37, pan wnaethoch ddefnyddio gwasanaeth Treth Enillion Cyfalaf 'amser real'.

### Blwch 39 Enillion sy'n fwy na'r terfyn oes ar gyfer cyfranddaliadau statws cyflogai sy'n gyfranddaliwr

Rhowch swm yr enillion sy'n fwy na'r terfyn oes ar gyfer cyfranddaliadau â statws cyflogai sy'n gyfranddaliwr ym mlwch 39. Dylid cynnwys unrhyw enillion yn y cyfanswm ym mlwch 34.

### Blwch 40 Enillion a fuddsoddwyd o dan y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau 'Seed' ac sy'n gymwys i gael rhyddhad

Ym mlwch 40, rhowch gyfanswm yr holl enillion a wnaethoch ar waredu asedion yn ystod y flwyddyn hon lle rydych yn hawlio bod yr enillion hyn yn gymwys am eithriad oherwydd ailfuddsoddiad mewn cyfranddaliadau a neilltuwyd i chi, neu yr ystyriwyd eu bod wedi'u neilltuo i chi, yn y flwyddyn honno gan un neu fwy o Gwmnïau Buddsoddi mewn Mentrau 'Seed'.

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio ac atodi'r ffurflenni cais, a ddarperir gyda'r tystysgrifau SEIS3, i dudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf' eich Ffurflen Dreth.

> I gael rhagor o wybodaeth am Gynlluniau Buddsoddi mewn Mentrau 'Seed', ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS393'.

### Blwch 41 Colledion a ddefnyddiwyd yn erbyn incwm – swm a hawliwyd yn erbyn incwm 2025 i 2026

Mae'r blwch hwn ond yn berthnasol os gallwch osod colledion cyfalaf yn erbyn eich incwm ar gyfer y flwyddyn hon. Bydd angen Taflen Gymorth 286, 'Negligible value claims and Income Tax losses on disposals of shares you've subscribed for in qualifying trading companies', Taflen Gymorth 297, 'Capital Gains Tax and Enterprise Investment Scheme' a Thaflen Gymorth 393, 'Seed Enterprise Investment Scheme – Income Tax and Capital Gains Tax Relief', arnoch i'ch helpu i lenwi'r blwch hwn.

Peidiwch â chynnwys unrhyw golledion nad ydynt yn golledion caniataol oherwydd eich bod yn gwneud hawliad am incwm tramor, hawliad am enillion tramor neu ddewis OWR ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 o dan y gyfundrefn FIG.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS286', 'HS297' neu 'HS393'.

### Blwch 42 Swm ym mlwch 41 sy'n ymwneud â rhyddhad colledion cyfranddaliadau 2025 i 2026 y mae rhyddhad y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau neu'r Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau 'Seed' wedi'i briodoli iddo

Rhowch y swm y gwnaethoch ei gynnwys ym mlwch 41 ar gyfer cyfranddaliadau y mae Rhyddhad Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau neu Gynllun Buddsoddi mewn Mentrau 'Seed' yn ddyledus arnynt, ym mlwch 42.

### Blwch 43 Colledion a ddefnyddiwyd yn erbyn incwm – swm a hawliwyd yn erbyn incwm 2024 i 2025

Mae'r blwch hwn ond yn berthnasol os gallwch osod colledion cyfalaf yn erbyn eich incwm ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Bydd angen Taflen Gymorth 286, 'Negligible value claims and Income Tax losses on disposals of shares you've subscribed for in qualifying trading companies', Taflen Gymorth 297, 'Capital Gains Tax and Enterprise Investment Scheme' a Thaflen Gymorth 393, 'Seed Enterprise Investment Scheme – Income Tax and Capital Gains Tax Relief', arnoch i gyfrifo a allwch chi lenwi'r blychau hyn.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS286','HS297' neu 'HS393'.

### Blwch 44 Swm ym mlwch 43 sy'n ymwneud â rhyddhad colledion cyfranddaliadau 2024 i 2025 y mae rhyddhad y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau neu'r Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau 'Seed' wedi'i briodoli iddo

Rhowch y swm y gwnaethoch ei gynnwys ym mlwch 43 ar gyfer cyfranddaliadau y mae Rhyddhad Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau neu Gynllun Buddsoddi mewn Mentrau 'Seed' yn ddyledus arnynt, ym mlwch 44.

## Colledion ac addasiadau

### Colledion yn erbyn enillion cyfalaf y flwyddyn hon

### Blwch 45 Colledion a ddygwyd ymlaen ac a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn

Dim ond colledion a ddygwyd ymlaen y gallwch eu defnyddio i leihau enillion i'r 'swm blynyddol wedi'i esemptio' ar gyfer y flwyddyn. Ar gyfer y flwyddyn hon, y swm blynyddol wedi'i esemptio yw:

- £3,000 ar gyfer unigolion
- £1,500 ar gyfer y rhan fwyaf o ymddiriedolwyr

Dylech chi ond defnyddio'r blwch hwn ar gyfer colledion y mae modd eu defnyddio yn y flwyddyn hon.

### Blwch 46 Colledion incwm yn 2025 i 2026 a osodwyd yn erbyn enillion

Rhowch swm unrhyw golledion masnachu caniataol yr ydych am eu gosod yn erbyn enillion trethadwy ym mlwch 46. Dylai hyn fod yr isaf o'r canlynol:

- cyfanswm y colledion y gallwch eu hawlio
- y swm gofynnol (ar ôl ystyried colledion cyfalaf ar gyfer y flwyddyn) er mwyn lleihau'r enillion i sero

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS227'.

### Colledion cyfalaf – gwybodaeth arall

### Blwch 47 Colledion sydd ar gael i'w cario ymlaen

Gallwch gario'ch colledion nas defnyddiwyd (gan gynnwys 'colledion rhwystredig', sef 'Trosglwyddo asedion rhwng pobl gysylltiedig') ymlaen i flynyddoedd diweddarach. Nodwch y cyfanswm sydd i'w gario ymlaen. Peidiwch â chynnwys unrhyw golledion tramor yn y flwyddyn os ydych wedi gwneud hawliad am incwm tramor, hawliad am enillion tramor neu ddewis OWR ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 o dan y gyfundrefn FIG. Ni all y colledion gael eu cario ymlaen.

### Blwch 48 Colledion a ddefnyddiwyd yn erbyn enillion mewn blwyddyn gynharach

Mae'r blwch hwn ond yn berthnasol mewn amgylchiadau cyfyngedig. Er enghraifft, pan fydd rhywun yn marw.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS282'.
>
> I gael rhagor o wybodaeth am gario colledion yn ôl i flynyddoedd blaenorol, ewch i www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/capital-gains-manual

## Rhyddhad Buddsoddwyr

### Blwch 49 Enillion sy'n gymwys i gael Rhyddhad Buddsoddwyr

Ym mlwch 49, rhowch gyfanswm eich holl enillion sy'n gymwys i gael Rhyddhad Buddsoddwyr. Peidiwch â defnyddio'r blwch hwn ar gyfer enillion lle mae Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes yn berthnasol (gweler y nodiadau blwch 50).

> I gael rhagor o wybodaeth am Ryddhad Buddsoddwyr, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS308'.

## Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes

### Blwch 50  Enillion sy'n gymwys i gael Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes

Ym mlwch 50, rhowch gyfanswm yr holl enillion cyfansymiol sy'n gymwys i gael Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes.

Mae'n rhaid cynnwys yr holl enillion sy'n gymwys i gael Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes yn y cyfanswm ym mlwch 17 yr adran 'Eiddo, asedion ac enillion eraill' ar dudalen CG1 (ac eithrio pan gaiff yr enillion hyn eu datgan ym mlychau 52.1 i 52.5).

Mae'n rhaid i'r cyfanswm ym mlwch 50 beidio â bod yn fwy nag £1 miliwn. Mewn achosion eithriadol, os bydd rhyddhad yn ddyledus ar swm mwy, efallai y bydd angen addasiad treth ym mlwch 51.

> I gael rhagor o wybodaeth am Ryddhad Gwaredu Ased Busnes, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS275'.

### Blwch 50.1  Lwfans oes Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes a Rhyddhad Entrepreneuriaid (yn gynt) a hawliwyd – y cyfanswm a hawliwyd hyd yn hyn

Os caiff hawliad ei wneud ar gyfer y flwyddyn hon, yna dylid cynnwys yn y blwch hwn y cyfanswm a hawliwyd ar gyfer enillion yn y flwyddyn hon ac mewn unrhyw flwyddyn flaenorol. Mae'n rhaid i'r swm a nodir yn y blwch hwn beidio â bod yn fwy nag £1 miliwn.

O dan amgylchiadau prin iawn, bydd angen cofnod ym mlwch 51 os bydd rhyddhad yn ddyledus ar swm mwy. Mewn achosion o'r fath, dylai'r cyfrifiannau a gyflwynir gynnwys manylion yr hawliadau.

## Addasiadau i dreth enillion cyfalaf 2025 i 2026

### Blwch 51  Addasiadau i Dreth Enillion Cyfalaf

Os bwriad yr addasiad yw lleihau swm y Dreth Enillion Cyfalaf sy'n daladwy, rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll o flaen eich ffigur.

Mae'n bosibl y bydd angen i chi roi addasiad net ym mlwch 51 os yw'r canlynol yn berthnasol:

- mae eich ennill cyfalaf â Rhyddhad Credyd Treth Dramor, oni bai eich bod yn hawlio rhyddhad o dan y gyfundrefn FIG, gan na allwch hawlio FTCR ar yr enillion hynny – gallwch dim ond hawlio FTCR ar y gyfran briodol o unrhyw enillion na chwmpasir gan hawliad am ryddhad o dan y gyfundrefn FIG
- mae eich ennill cyfalaf yn cynnwys rhwymedigaeth mewn perthynas ag ymddiriedolaethau dibreswyl neu breswyl deublyg
- rydych wedi hawlio'r sail trosglwyddo mewn blwyddyn dreth flaenorol ac wedi gwneud dewis ar gyfer colledion tramor
- mae gennych colledion rhwystredig (sef 'Trosglwyddo asedion rhwng pobl gysylltiedig')
- mae angen i chi addasu dosraniad y colledion
- rydych yn agored i dalu Treth Incwm ar log cudd ac rydych am osgoi trethiant dwbl
- mae addasiad yn ddyledus i'r Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes a gyfrifwyd – er enghraifft, os caiff enillion eu trosglwyddo o flwyddyn flaenorol pan oedd lwfans oes gwahanol yn berthnasol
- mae angen i chi weithredu rhyddhad sy'n effeithio ar swm y dreth sy'n daladwy ar enillion cyfalaf ar gyfer person nad yw'n breswyl – er enghraifft, os bydd Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes yn berthnasol i'r holl enillion neu i rai ohonynt

Addasiadau treth i enillion cyfalaf 2022–23

51 Addasiadau i Dreth Enillion Cyfalaf
£ . 0 0

52 Rhwymedigaeth ychwanegol ar gyfer ymddiriedolaethau dibreswyl yn y DU neu rai â phreswyl deublyg
£ . 0 0

Enghraifft o dudalen 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf'

### Blwch 52  Rhwymedigaeth ychwanegol ar gyfer ymddiriedolaethau dibreswyl yn y DU neu rai â phreswyl deublyg

Bydd angen Taflen Gymorth 301, 'Beneficiaries receiving capital payments from non-resident trusts: calculation of the increase in tax charge', arnoch er mwyn cyfrifo'r swm i'w roi ym mlwch 52.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS301'.

### Treth Enillion Cyfalaf ar gyfer Person nad yw'n Breswyl (NRCGT) ar eiddo neu dir yn y DU a gwarediadau anuniongyrchol

Os ydych yn agored i enillion cyfalaf ar gyfer person nad yw'n breswyl (NRCG) mewn perthynas â gwaredu uniongyrchol neu anuniongyrchol o dir neu eiddo yn y DU yn ystod y flwyddyn hon, mae'n rhaid i chi ystyried llenwi blychau 52.1 i 52.5.

Dylai Ffurflen Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU fod wedi'i llenwi ar gyfer yr enillion cyn pen 60 diwrnod o gwblhau'r trawsgludiad.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/rhoi-gwybod-am-eich-treth-enillion-cyfalaf-a-i-thalu

Dylai'r Ffurflen Dreth hon ddangos y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn dreth hon. Nodwch gyfeirnodau pob un o'r Ffurflenni Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU a wnaed yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', sef blwch 54.

### Blwch 52.1

Ar gyfer gwarediadau uniongyrchol o eiddo preswyl yn y DU, rhowch gyfanswm yr enillion sy'n agored i NRCGT ym mlwch 52.1.

### Blwch 52.2

Ar gyfer gwarediadau uniongyrchol o eiddo neu dir dibreswyl yn y DU, neu warediadau anuniongyrchol o unrhyw eiddo neu dir yn y DU, rhowch gyfanswm yr enillion sy'n agored i NRCGT ym mlwch 52.2.

### Blwch 52.3

Rhowch 'X' ym mlwch 52.3 os yw unrhyw ran o'r enillion ym mlwch 52.2 yn dod o warediadau anuniongyrchol.

### Blwch 52.4 Treth ar enillion ym mlychau 52.1 a 52.2 a godwyd yn barod

Rhowch swm y dreth a godwyd ar y Ffurflenni Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU a gyflwynwyd ym mlwch 52.4.

### Blwch 52.5 Cyfanswm colledion sydd ar gael yn erbyn enillion NRCGT ar gyfer y flwyddyn

Rhowch gyfanswm y colledion caniataol sy'n cael eu gosod yn erbyn yr enillion cyfalaf ar gyfer person nad yw'n breswyl ar gyfer y flwyddyn hon ym mlwch 52.5.

> I gael rhagor o wybodaeth am enillion a cholledion cyfalaf ar gyfer person nad yw'n breswyl, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS307'.

## Enillion ar warantau mynegeiedig sydd wedi'u heithrio ac enillion a cholledion ar ailbrynu cyfranddaliadau ac adbrynu gwarantau gan gwmni sy'n dal asedion cymwys (QAHC)

### Blwch 52EG Cyfanswm yr enillion sy'n deillio o waredu gwarantau mynegeiedig sydd wedi'u heithrio

Rhowch gyfanswm yr enillion sy'n codi o waredu gwarantau mynegeiedig sydd wedi'u heithrio ym mlwch 52EG.

Ni ddylai'r symiau sydd wedi'u cynnwys yma ar gyfer yr enillion hyn gynnwys effaith unrhyw golledion neu ryddhad. Os yw'r enillion hyn yn deillio o waredu gwarantau mynegeiedig sydd wedi'u heithrio, a oedd yn cael eu dal mewn QAHC, yna dylid cynnwys yr enillion hyn hefyd yng nghyfanswm blwch 52QG.

Rhaid i nifer y gwarediadau a swm yr enillion hefyd gael eu cynnwys yn yr adrannau perthnasol ar dudalennau CG1 a CG2.

### Blwch 52EG.1 Swm a hawliwyd o dan y gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG)

Os ydych wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn FIG ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati' (SA109), rhowch swm yr enillion tramor o waredu gwarantau mynegeiedig sydd wedi'u heithrio (o flwch 52EG) yr ydych yn hawlio rhyddhad ar ei gyfer ym mlwch 52EG.1

### Blwch 52QG Cyfanswm yr enillion sy'n deillio o ailbrynu cyfranddaliadau QAHC ac adbrynu gwarantau

Rhowch gyfanswm yr enillion sy'n codi o ailbrynu cyfranddaliadau ac adbrynu gwarantau, a ddelir mewn QAHC, ym mlwch 52QG.

Ni ddylai'r symiau sydd wedi'u cynnwys yma gynnwys effaith unrhyw golledion neu ryddhad.

Rhaid i nifer y gwarediadau a swm yr enillion hefyd gael eu cynnwys yn yr adrannau perthnasol ar dudalennau CG1 a CG2.

### Blwch 52QG.1 Swm a hawliwyd o dan y gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG)

Os ydych wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn FIG ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati' (SA109), rhowch swm yr enillion tramor ar eiddo preswyl yn y flwyddyn (o flwch 52QG) yr ydych yn hawlio rhyddhad ar ei gyfer ym mlwch 52QG.1.

### Blwch 52QL Cyfanswm y colledion sy'n deillio o ailbrynu cyfranddaliadau QAHC ac adbrynu gwarantau

Rhowch gyfanswm y colledion sy'n deillio o ailbrynu cyfranddaliadau ac adbrynu gwarantau, a ddelir mewn QAHC, ym mlwch 52QL.

Rhaid cynnwys nifer y gwarediadau a swm y colledion hefyd yn yr adrannau perthnasol ar dudalennau CG1 a CG2.

Peidiwch â chynnwys colledion tramor sy'n deillio o ailbrynu cyfranddaliadau ac adbrynu gwarantau, a ddelir mewn QAHC, os ydych yn gwneud hawliad am incwm tramor, hawliad am enillion tramor neu ddewis OWR ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 o dan y gyfundrefn FIG. Ni all y colledion gael eu cario ymlaen.

## Unrhyw wybodaeth arall

### Blwch 53 Rhowch 'X' yn y blwch os yw eich cyfrifiannau'n cynnwys unrhyw amcangyfrifon neu brisiadau

Os yw eich cyfrifiant yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig, neu brisiad, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni:

- ym mhle a pham rydych wedi defnyddio symiau amcangyfrifedig
- sut y gwnaethoch gyfrifo'r symiau hyn

yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 54 neu yn eich cyfrifiant.

Ar gyfer prisiadau, dylech hefyd gynnwys:

- dyddiad y prisiad
- disgrifiad llawn o'r ased

yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 54 neu yn eich cyfrifiant.

### Blwch 54

Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y blwch hwn. Er enghraifft:

- os ydych yn gwneud hawliad neu'n dewis pennu colledion ar asedion tramor yn golledion caniataol, ysgrifennwch yn y blwch 'Rwy'n dewis pennu fy ngholledion tramor yn golledion caniataol'
- unrhyw enillion o'ch cyfrifiadau, megis enillion tramor na allwch eu trosglwyddo i'r DU
- unrhyw wybodaeth i gefnogi ffigurau amcangyfrifedig a phrisiadau
- unrhyw beth sydd angen i chi ei ychwanegu i ategu eich cyfrifiannau
- manylion y cyfrifiadau o enillion a cholledion
- cyfrifiadau i ategu unrhyw gofnodion a wnaed ym mlwch 50.1, blwch 51 a blwch 52
- y cyfeirnod ar gyfer pob Ffurflen Treth Enillion Cyfalaf ar Eiddo yn y DU a wnaed
- cyfeirnod pob cyflwyniad Treth Enillion Cyfalaf 'amser real' a wnaed

Pan fo ased wedi'i waredu o dan gontract diamod, ond nad yw'r contract wedi'i gyflawni erbyn y dyddiad y caiff y Ffurflen Dreth hon ei chyflwyno, nodwch fanylion y trafodyn yma. Pan fydd y contract yn cael ei gyflawni bydd angen i chi roi cyfrifiant manwl o unrhyw enillion neu golledion.

## Rhagor o gymorth os bydd ei angen arnoch

I gael copïau o unrhyw daflenni cymorth neu Ffurflenni Treth, ewch i
www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad

Gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 i gael cymorth gyda'ch Ffurflenni Treth.

Mae gennym amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer pobl anabl. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni ar gael mewn print bras hefyd. Ffoniwch ein llinellau cymorth am fwy o wybodaeth.

## Taflen waith cyfrifiant (ar gyfer cyfrifiadau syml)

Llenwch un daflen ar gyfer pob ased a werthwyd.

Disgrifiad o'r ased, er enghraifft, math a nifer y cyfranddaliadau a werthwyd neu gyfeiriad yr eiddo

Dyddiad gwaredu neu werthu DD MM BBBB

Enillion o waredu neu o werthu, neu werth ar y farchnad os yw'n briodol — A £

Mân gostau gwaredu neu werthu — B £

**Enillion gwaredu net** blwch A llai blwch B — C £

Dyddiad caffael DD MM BBBB

Cost neu werth ar 31 Mawrth 1982 gweler tudalen CGN 2 — D £

Mân gostau caffael — E £

Costau gwella — F £

**Cyfanswm y costau** blychau D + E + F — G £

**Enillion neu golledion** blwch C llai blwch G — H £

Rhyddhad neu ddewisiadau enillion cyfalaf (nid y swm blynyddol wedi'i eithrio neu Ryddhad Gwaredu Ased Busnes) a disgrifiad — I £

**Enillion net** blwch H llai blwch I — J £